OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2012 Rhif 202 (Cy.33)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud gofynion ynglŷn â'r categorïau proffesiynol y mae'n rhaid dewis gweithwyr ohonynt i fod yn aelodau o dîm integredig cymorth i deuluoedd ("ICiD"). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i fwrdd ICiD ei wneud i gyrraedd yr amcanion a roddwyd iddo gan adran 62 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("Mesur 2010").

Mae adran 57 o Fesur 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu un neu ragor o dimau ICiD. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ardaloedd awdurdodau lleol y mae adran 57 wedi cael ei dwyn i rym mewn perthynas â hwy ac y mae ganddynt ddyletswydd i sefydlu tîm ICiD. Ar y dyddiad y caiff y Rheoliadau hyn eu dwyn i rym mae adran 57 mewn grym mewn perthynas ag ardaloedd yr awdurdodau lleol a ganlyn: Merthyr Tudful, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Wrecsam, Caerdydd a Bro Morgannwg (gweler Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2010 a Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 4) 2012).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2012 No. 202 (W.33)

# SOCIAL CARE, WALES

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

# CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

# The Integrated Family Support Teams (Composition of Teams and Board Functions) (Wales) Regulations 2012

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make requirements about the professional categories from which the workers who are members of an integrated family support ("IFS") team must be drawn. These Regulations also set out what an IFS board must do to meet the objectives conferred on it by section 62 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 ("the 2010 Measure").

Section 57 of the 2010 Measure imposes a duty on local authorities to establish one or more IFS teams. These Regulations apply to local authority areas in relation to which section 57 has been commenced and which have a duty to establish an IFS team. On the date these Regulations are brought into force section 57 is in force in relation to the following local authority areas: Merthyr Tydfil, Newport, Rhondda Cynon Taff, Wrexham, Cardiff and the Vale of Glamorgan (see the Children and Families (Wales) Measure 2010 (Commencement) Order 2010 and the Children and Families (Wales) Measure 2010 (Commencement No. 4) Order 2012).

Mae rheoliad 2 yn gwneud yn ofynnol bod rhaid i dîm ICiD gynnwys craidd o bum gweithiwr proffesiynol o'r tri phroffesiwn: gwaith cymdeithasol, nyrsio a gwasanaethau ymwelwyr iechyd. Rhaid i bob un o'r proffesiynau gael ei gynrychioli yn y tîm. Ar ben hynny, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol, neu os oes rhagor nag un gweithiwr cymdeithasol, rhaid i o leiaf un ohonynt, fod yn weithiwr cymdeithasol ymgynghorol, fel y'i diffinnir yn rheoliad 1.

Mae rheoliad 3 yn gwneud yn ofynnol bod gan y tîm ICiD sgiliau a phrofiad addas, o ystyried y mathau gwahanol o achosion yr atgyfeirir iddo, unrhyw ganllawiau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi a'r angen sydd ar aelodau proffesiynol o'r tîm ICiD am gymorth gweinyddol.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r swyddogaethau y mae'n rhaid i fwrdd ICiD eu cyflawni er mwyn cyrraedd ei amcanion fel a nodir yn adran 62(1) o Fesur 2010.

Mae rheoliad 5 yn dirymu Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1690) (Cy.159).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ynglŷn â chostau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulation 2 requires that an IFS team must contain a core of five professionals drawn from three professions: social work, nursing and health visiting. Each profession must be represented in the team. In addition the social worker, or, where there is more than one social worker, at least one of them, must be a consultant social worker, as defined in regulation 1.

Regulation 3 requires the IFS team to have suitable skills and experience having regard to the types of cases that are to be referred to it, to guidance that the Welsh Ministers may issue and to the need of the professional members of the IFS team for administrative support.

Regulation 4 sets out the functions an IFS board must perform in meeting its objectives as set out in section 62(1) of the 2010 Measure.

Regulation 5 revokes the Integrated Family Support Teams (Composition of Teams and Board Functions) (Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/1690) (W.159).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Directorate of Health, Social Services and Children, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 202 (Cy.33)

## GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Ionawr 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *31 Ionawr 2012* |
| *Yn dod i rym* | *28 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 60(1) a 62(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 28 Chwefror 2012

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Mesur 2010" ("*the 2010 Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

ystyr "gweithiwr cymdeithasol" ("*social worker*") yw person sydd wedi ei gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol gyda Chyngor Gofal Cymru, y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol, y Cyngor

(**1**) 2010 mccc 1.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 202 (W.33)

## SOCIAL CARE, WALES

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

# The Integrated Family Support Teams (Composition of Teams and Board Functions) (Wales) Regulations 2012

| | |
|---|---|
| *Made* | *30 January 2012* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *31 January 2012* |
| *Coming into force* | *28 February 2012* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 60(1) and 62(2) of the Children and Families (Wales) Measure 2010(**1**), make the following Regulations:

**Title, commencement, interpretation and application**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the Integrated Family Support Teams (Composition of Teams and Board Functions) (Wales) Regulations 2012 and they come into force on 28 February 2012.

(2) In these Regulations—

"the 2010 Measure" ("*Mesur 2010*") means the Children and Families (Wales) Measure 2010;

"consultant social worker" ("*gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol*") means a social worker with at least three years post-qualification experience and with such skills, qualifications and competences as may

(**1**) 2010 nawm 1.

Proffesiynau Iechyd neu ar gofrestr gyffelyb o weithwyr cymdeithasol a gynhelir yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol" ("*consultant social worker*") yw gweithiwr cymdeithasol sydd â thair blynedd, o leiaf, o brofiad ar ôl cymhwyso ac yn meddu ar y cyfryw sgiliau, cymwysterau a chymwyseddau ag a bennir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru mewn canllawiau a ddyroddir o dan adran 65 o Fesur 2010;

ystyr "nyrs" ("*nurse*") yw person a gofrestrwyd yn rhan y nyrsys o'r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;

ystyr "tîm" ("*team*") yw tîm integredig cymorth i deuluoedd a sefydlwyd o dan Ran 3 o Fesur 2010;

ystyr "ymwelydd iechyd" ("*health visitor*") yw person a gofrestrwyd yn rhan y nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol o'r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac sydd â'i gofnod yn y rhan honno o'r gofrestr yn cofnodi cymhwysedd mewn gwasanaethau ymwelwyr iechyd.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran yr ardaloedd hynny o Gymru y mae adran 57 (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd) o Fesur 2010 wedi ei chychwyn mewn perthynas â hwy(**1**).

**Cyfansoddiad timau integredig cymorth i deuluoedd**

**2**.—(1) Rhaid i dîm gynnwys o leiaf bum person y mae pob un ohonynt yn dod o un o'r categorïau proffesiynol a ganlyn—

(a) gweithiwr cymdeithasol;

(b) nyrs; neu

(c) ymwelydd iechyd.

(2) Rhaid i dîm gynnwys o leiaf un person o bob un o'r categorïau yn is-baragraffau (a) i (c) o baragraff (1).

(3) Rhaid i un aelod o'r tîm fod yn weithiwr cymdeithasol ymgynghorol.

**3**. Rhaid i dîm gynnwys staff sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad addas, gan ystyried—

(a) y categorïau o achosion y gellir eu hatgyfeirio at y tîm;

(b) yr angen sydd ar y staff proffesiynol am gymorth gweinyddol; ac

(**1**) Ar y dyddiad y caiff y Rheoliadau hyn eu dwyn i rym mae adran 57 o Fesur 2010 mewn grym mewn perthynas ag ardaloedd yr awdurdodau lleol a ganlyn: Merthyr Tudful, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Wrecsam, Caerdydd a Bro Morgannwg.

be set out by the Welsh Ministers from time to time in guidance issued under section 65 of the 2010 Measure;

"health visitor" ("*ymwelydd iechyd*") means a person who is registered on the specialist community public health nurse part of the register maintained by the Nursing and Midwifery Council and whose entry in that part of the register records competence in health visiting;

"nurse" ("*nyrs*") means a person who is registered on the nurses part of the register maintained by the Nursing and Midwifery Council;

"social worker" ("*gweithiwr cymdeithasol*") means a person who is registered as a social worker with the Care Council for Wales, the General Social Care Council, the Health Professions Council or a similar register of social workers maintained in Scotland or Northern Ireland;

"team" ("*tîm*") means an integrated family support team established under Part 3 of the 2010 Measure.

(3) These Regulations apply in relation to those areas of Wales in relation to which section 57 (establishment of family support teams) of the 2010 Measure has been commenced(**1**).

**Composition of integrated family support teams**

**2**.—(1) A team must include a minimum of five persons each of whom are from one of the following professional categories—

(a) social worker;

(b) nurse; or

(c) health visitor.

(2) A team must include at least one person from each of the categories in subparagraphs (a) to (c) of paragraph (1).

(3) One member of the team must be a consultant social worker.

**3**. A team must contain staff with suitable skills and experience having regard to—

(a) the categories of cases which can be referred to it;

(b) the need of professional staff for administrative support; and

(**1**) On the date these Regulations are brought into force section 57 of the 2010 Measure is in force in relation to the following local authority areas: Merthyr Tydfil, Newport, Rhondda Cynon Taff, Wrexham, Cardiff and the Vale of Glamorgan.

(c) unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 65 o Fesur 2010.

**Byrddau Integredig Cymorth i Deuluoedd**

**4.** Er mwyn cyrraedd yr amcanion yn adran 62(1) o Fesur 2010 (swyddogaethau byrddau integredig cymorth i deuluoedd) rhaid i fwrdd integredig cymorth i deuluoedd—

(a) cael ac ystyried adroddiadau rheolaidd oddi wrth y person sy'n rheoli'r tîm gan gynnwys gwybodaeth am lefelau gweithgarwch gwasanaethu a chanlyniadau;

(b) ceisio datrys problemau o ran cyd-drefnu gwasanaethau a ddarperir gan y tîm a gwasanaethau eraill a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol;

(c) sicrhau bod gan y tîm weithdrefnau o ran—

(i) amddiffyn plant;

(ii) amddiffyn oedolion;

(ch) sefydlu gweithdrefn i ddatrys anghydfod rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol am y trefniadau ar gyfer y tîm;

(d) sicrhau bod trefniadau digonol i oruchwylio aelodau proffesiynol y tîm fel a nodir yn rheoliad 2(1) ac i ofalu am eu datblygiad proffesiynol;

(dd) cael adroddiadau ar incwm a gwariant y tîm a hysbysu'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol am unrhyw broblemau ariannol neu broblemau yn ymwneud ag adnoddau eraill a fyddai'n debygol o effeithio ar allu y tîm i gyflawni ei amcanion.

**Dirymu**

**5**. Mae Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2010(**1**) wedi eu dirymu.

(c) any guidance issued by the Welsh Ministers under section 65 of the 2010 Measure.

**Integrated Family Support Boards**

**4**. In order to achieve the objectives in section 62(1) of the 2010 Measure (functions of integrated family support boards) an integrated family support board must—

(a) receive and consider regular reports from the person managing the team including information about the levels of service activity and outcomes;

(b) seek to resolve issues in relation to the coordination of services provided by the team and other services provided by the local authority and the local health board;

(c) ensure that the team has procedures in relation to—

(i) child protection;

(ii) adult protection;

(d) establish a procedure for resolving disputes between the local authority and the local health board about the arrangements for the team;

(e) ensure that there are adequate arrangements for the supervision and professional development of the professional members of the team as set out in regulation 2(1);

(f) receive reports on the team's income and expenditure and notify the local authority and the local health board of any financial or other resource issues which are likely to affect the teams ability to fulfil its functions.

**Revocation**

**5**. The Integrated Family Support Teams (Composition of Teams and Board Functions) (Wales) Regulations 2010(**1**) are revoked.

*Gwenda Thomas*

Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Deputy Minister for Children and Social Services under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

30 Ionawr 2012

30 January 2012

(**1**) O.S. 2010/1690 (Cy. 159).

(**1**) S.I. 2010/1690 (W.159).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 202 (Cy.33)

## GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2012

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 202 (W.33)

## SOCIAL CARE, WALES

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Integrated Family Support Teams (Composition of Teams and Board Functions) (Wales) Regulations 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-10690-9

£5.75

W1170/02/12 ON